# Arian Arts Award Uned 2 Rhan B: cynllunio'r mate-rion ymarferol

arts award

Cynllun

Diben y daflen waith hon yw eich helpu i gynllunio eich prosiect a chreu amserlen ar gyfer y prosiect.

Defnyddiwch y cwestiynau hyn fel cymhelliannau i greu eich cynllun prosiect eich hun neu cwblhewch y cynllunydd amserlen ar y dudalen nesaf. Os ydych chi'n gweithio fel tîm, gall y broses gynllunio fod yn weithgaredd grŵp ond dylai'r bobl ifanc ddatblygu eu maes penodol eu hunain lle maent yn arwain ynddo.

- Pwy yw'r cyfranogwyr neu'r brif gynulleidfa ar gyfer eich prosiect? A oes unrhyw beth yn benodol y mae angen i chi ei ystyried ar gyfer y gynulleidfa hon?
- Sut fyddwch chi'n recriwtio cyfranogwyr?
- Sut fyddwch chi'n hyrwyddo'r prosiect?
- Sut fyddwch chi'n darparu'r prosiect?
- Pa bethau ymarferol fydd angen i chi eu trefnu a sut fyddwch chi'n gwneud hyn? (e.e. deunyddiau, adnoddau, offer, lle)
- Pa gymorth fyddwch chi ei angen gan bobl eraill? Pwy sydd am eich helpu a sut?
- Sut ydych chi'n mynd i asesu sut mae eich sgiliau arwain yn datblygu, a chasglu adborth ar hyd y ffordd?

Asesu risg

Fel rhan o'ch cynllunio, dylech ystyried unrhyw feysydd iechyd a diogelwch neu asesu risg y bydd angen i chi feddwl amdanynt. Er enghraifft, efallai y bydd angen i chi feddwl am:

- Sŵn/cerddoriaeth
- Deunyddiau peryglus posib (e.e. paent, glud, deunyddiau celf)
- Defnydd diogel o offer trydanol
- Allanfeydd mewn argyfwng
- Diogelwch plant a phobl ifanc

| Maes asesu risg | Nodiadau o'r drafodaeth â'r cyng-horydd | Camau gweithredu / cyngor y cytunwyd arnynt |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Amserlen y prosiect

Bydd angen i chi feddwl am amserlenni ar gyfer eich prosiect. Defnyddiwch y siart hon i'ch helpu I gynllunio cerrig filltir ac amserlenni. Gallwch ddod yn ôl a thicio pethau wrth i chi eu cwblhau.

| Cam gweithredu | Person sy'n gyfrifol | Dyddiad y mae angen ei gwblhau erbyn | Dyddiad y cwblhawyd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Awgrym: Mae'n ddefnyddiol rhannu camau gweithredu yn bethau y mae angen i chi eu gwneud cyn, yn ystod ac ar ôl y prosiect:

- Cyn - archebu lleoliad/offer, trefnu deunyddiau/adnoddau, cwblhau asesiad risg, trefnu ffurflenni cydsynio, creu taflenni gwybodaeth/posteri, paratoi ffurflenni adborth
- Yn ystod - cymryd lluniau, myfyrio ar sut mae eich sgiliau arwain yn datblygu, cysylltu â phobl eraill, casglu adborth gan eraill
- Ar ôl - casglu adborth, asesu sut aeth y prosiect, dychwelyd offer, creu adolygiad o'r prosiect a meddwl am sut y datblygodd eich sgiliau arwain

TRINITY COLLEGE LONDON

ARTS COUNCIL ENGLAND